**Rhif: WG38001**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Dyddiad cyhoeddi: 24 Medi 2019

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Tachwedd 2019

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English and Easy Read versions

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y cynigion ar gyfer Amcanion Cydraddoldeb 2020-2024 Llywodraeth Cymru.<br><br>Diben yr Amcanion Cydraddoldeb yw atgyfnerthu ein sylw priodol i'r tri nod neu 'angen' fel yr amlinellir mewn deddfwriaeth, o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.<br><br>Y tri nod yw'r angen i wneud y canlynol:<br><br>• Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb.<br><br>• Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.<br><br>• Meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu. |
| **Sut i ymateb** | Ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig yw hwn. Caiff cwestiynau eu crynhoi mewn ffurflen ymateb i'r Ymgynghoriad yn Atodiad A. Defnyddiwch yr holiadur hwn neu'r ffurflen ar-lein i roi eich adborth. Gellir e-bostio neu bostio ymatebion gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Gellir gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Tîm Cydraddoldeb<br>Yr Is-adran Cymunedau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost:<br>AmcanionCynllunCydraddoldebStrategol2020@llyw.cymru |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu dileu
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog

Cyflwyniad

Pennod 1: Cydraddoldeb nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Pennod 2: Y dirwedd cydraddoldeb

Pennod 3: Adborth o waith ymgysylltu cychwynnol

Pennod 4: Beth mae'r dystiolaeth am gydraddoldeb yn ei ddweud wrthym *(A yw Cymru'n Decach? 2018*)

Pennod 5: Amcanion Cydraddoldeb Drafft Llywodraeth Cymru

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cwestiynau

## Rhagair gan y Gweinidog



Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Credwn y dylai pawb gael ei drin yn deg, yn enwedig y sawl sydd fwyaf ar y cyrion. Rydym yn gweithio tuag at Gymru fwy cyfartal, gwlad sy'n sicrhau chwarae teg wrth gael gafael ar wasanaethau, cyfleoedd i'n holl ddinasyddion a chanlyniadau tecach i bawb.

Nid yw'r nodau hyn yn newydd, ond maent yn bwysicach nag erioed ar hyn o bryd. Mae'r bwlch rhwng y bobl gyfoethocaf a thlotaf yn ein cymdeithas yn dal i dyfu, ac mae llawer o leisiau eithafol yn camfanteisio ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo eu hagendâu o anoddefgarwch a chasineb tuag at bobl eraill. Mae blynyddoedd o gyni ac ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit hefyd yn bygwth tanseilio ein gwerthoedd a rennir a rhannu ein cymunedau.


Yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid i ni wneud pob ymdrech i gadarnhau a dangos ein hymrwymiad at gydraddoldeb a bod yn wyliadwrus er mwyn gwarchod deddfau hawliau dynol a chytuniadau rhyngwladol sy'n diogelu pob un ohonom.  Mae'n rhaid i ni fod yn glir bod cydraddoldeb i bawb, nid dim ond i rai. Mae'n rhaid i ni gefnogi'r grwpiau a'r unigolion hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o wahaniaethu a chael eu trin yn annheg sydd, yn ei dro, yn arwain at ganlyniadau bywyd anghyfartal iawn. Mae'r rhain yn cynnwys pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a phobl LHDT+. Gall yr heriau fod yn fwy pan fydd nodweddion personol o'r fath yn gorgyffwrdd a bydd unigolion yn wynebu "gwahaniaethu dwbl".

Nid yw'n ddigon sefyll yn llonydd, felly mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i wella cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae anghydraddoldeb rhywiol yn effeithio ar bob grŵp ac oedran ac mae ein Hadolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol wedi darparu map i'n helpu i fynd i'r afael â'r prif faterion.   Yn yr un modd, gall tlodi ddeillio o anghydraddoldeb ac mae'r sawl sy'n byw mewn tlodi hefyd yn wynebu anghydraddoldebau. Dyma pam rydym yn dechrau Rhan Un o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, "y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol", a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru roi sylw priodol i effeithiau economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Ar yr un pryd, rydym yn comisiynu ymchwil i archwilio'r opsiynau sydd ar gael i ni wrth fynd ati i atgyfnerthu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Gwyddom ei bod hefyd yn hanfodol gwneud y defnydd gorau posibl o ddeddfwriaeth bresennol, a dyna pam y mae'r ymgynghoriad hwn mor bwysig. Mae gennym ddyletswydd i adnewyddu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol erbyn mis Ebrill 2020. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut rydym yn bwriadu gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod yr amcanion hyn yn briodol dros y pedair blynedd nesaf, sy'n cefnogi ein nodau cydraddoldeb hirdymor ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda llawer o gyrff eraill er mwyn cyflawni'r nodau hynny. Yn benodol, rydym yn ystyried bod y

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn bartner allweddol ac mae ein dull gweithredu yn seiliedig i raddau helaeth ar ei adroddiad pwysig *A yw Cymru'n Decach? 2018,*

Hoffwn annog pawb sydd â diddordeb mewn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru i ystyried y cynigion yn ofalus ac ymateb i'r ymgynghoriad hwn.



**Jane Hutt AC**

Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip, â chyfrifoldeb portffolio am Gydraddoldeb.

## Cyflwyniad

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sydd, yn gryno, yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi sylw priodol i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu;
- Meithrin cydberthnasau da rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.

Datblygwyd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i gysoni'r dyletswyddau cydraddoldeb blaenorol o ran hil, anabledd a chydraddoldeb rhywiol, ac i gwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Y 9 nodwedd warchodedig yw:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- priodas a phartneriaeth sifil (mewn perthynas â chael eich trin yn wahanol yn y gwaith).

Gan adeiladu ar y Ddeddf ei hun, gosododd Rheoliadau penodol i Gymru[1] sylfaen bellach ar gyfer rhoi cydraddoldeb ar waith yng Nghymru gan sicrhau bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael ei chyflawni'n well. O dan y Rheoliadau hyn, rhaid i gyrff a restrir baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Wrth ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb, rhaid i awdurdodau gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un nodwedd warchodedig neu fwy ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r awdurdod yn gweithredu ei swyddogaethau.

Mae diben yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'r broses o fodloni'r gofyniad o dan y dyletswyddau hynny i adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb ac ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig wrth wneud hynny.

Wrth weithredu ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â phartneriaid. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys aelodau o'n Bwrdd Cydraddoldeb Strategol a nifer o fforymau sy'n cefnogi ymgysylltiad parhaus â grwpiau allweddol, fel Fforwm Hil Cymru, y Fforwm Cymunedau Ffydd, y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd a'r Tasglu Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.

Yn ogystal, caiff saith asiantaeth arweiniol eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth i unigolion a chymunedau ledled Cymru mewn perthynas â rhywedd (Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru); anabledd (Anabledd Cymru); hil (Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gefnogir gan TGP Cymru; lleiafrifoedd ethnig eraill a gefnogir gan EYST); ffoaduriaid a cheiswyr lloches (Clymblaid dan arweiniad Cyngor Ffoaduriaid Cymru); cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd (Stonewall Cymru); (EYST) a throseddau casineb (Cymorth i Ddioddefwyr Cymru). Caiff y gwaith ei

[1] Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

gefnogi hefyd gan y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol, sy'n cynnwys wyth Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n rhan annatod o awdurdodau lleol a gweithio'n rhanbarthol.

**Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?**

Yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb penodol Cymru, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a fydd yn ein helpu i atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â chydraddoldeb a chynhwysiant i bob grŵp gwarchodedig. Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb yn ein helpu i flaenoriaethu meysydd anghydraddoldeb y mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys.

Cyhoeddwyd Amcanion Cydraddoldeb 2016-20 Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2016. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi'r Amcanion Cydraddoldeb presennol, sy'n nodi amrywiaeth o gamau gweithredu gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at y broses o gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb. Mae'n rhaid i ni adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb bob pedair blynedd.

**Y sefyllfa bresennol**

Dechreuodd trafodaethau cychwynnol a digwyddiadau ymgysylltu â sefydliadau cydraddoldeb, arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill o ran yr Amcanion Cydraddoldeb yn gynharach eleni. Roeddem am gael eu barn ar beth yw'r meysydd blaenoriaeth o ran anghydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwarchodedig heddiw, y dylai Llywodraeth Cymru fod yn mynd i'r afael â nhw yn ei Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024.

Cawsom safbwyntiau a phrofiadau amrywiol gan y cyfranogwyr ynghylch byw yng Nghymru. Gwnaethant nodi lle roeddent o'r farn y gellid bod wedi gwneud mwy i'w trin nhw (neu'r grwpiau yr oedd eu sefydliadau yn eu cynrychioli) yn deg. Gwnaethant hefyd gyfeirio at rwystrau maent wedi'u hwynebu am eu bod yn perthyn i un neu fwy o grwpiau gwarchodedig.

Yn ystod yr ymgysylltiad cynnar hwn, gwnaethom hefyd gael barn ar Raglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017-2020 Llywodraeth Cymru. Ar y cam hwn roeddem yn ystyried ymgynghori ar y trefniadau ar gyfer y cyfnod yn dilyn y rhaglen hon ynghyd ag ymgynghori ar ein Hamcanion Cydraddoldeb nesaf. Am nifer o resymau, yn cynnwys ansicrwydd ynghylch cyllidebau yn y dyfodol, rydym wedi penderfynu ymgynghori ar yr Amcanion yn unig ar y cam hwn. Rydym yn rhagweld y byddwn yn ymgynghori ar wahân ar drefniadau cyllido cydraddoldeb ar gyfer y dyfodol yn 2020.

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *A yw Cymru'n Decach?* – adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd y mae Cymru yn perfformio ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r adroddiad yn darparu data a thystiolaeth werthfawr a fydd yn cefnogi ymdrechion ein holl gyrff cyhoeddus i leihau anghydraddoldeb yng Nghymru.

Edrychodd y Comisiwn ar chwe thema bywyd ("meysydd"):

- addysg;
- iechyd;
- safonau byw;

- cyfiawnder a diogelwch;
- gwaith;
- cyfranogiad

Cymharodd ganlyniadau ar gyfer grwpiau mewn meysydd fel bylchau cyflog, cyrhaeddiad addysgol, a phrofiadau o droseddau casineb.

**Beth sy'n newydd?**

Rydym wedi defnyddio'r dadansoddiad o'n hymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid a'r dystiolaeth a geir yn *A yw Cymru'n Decach?* 2018 i baratoi cyfres ddrafft o Amcanion Cydraddoldeb. Ein nod yw sicrhau y bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 yn mynd i'r afael â'r heriau a nodir yn *A yw Cymru'n Decach? 2018.* Er mwyn cefnogi hyn, caiff y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â phob amcan eu trefnu gan ddefnyddio'r meysydd yn yr adroddiad hwnnw.

Nid yw'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys yr holl gamau gweithredu a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion. Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar sicrhau bod yr amcanion eu hunain, a'r nodau hirdymor y byddant yn cyfrannu atynt, yn briodol.


Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn i chi ystyried y canlynol:

- Beth yw'r rhwystrau mwyaf sy'n wynebu'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru;
- P'un a yw Amcanion Cydraddoldeb drafft Llywodraeth Cymru yn nodi'r heriau hynny ac yn mynd i'r afael â nhw'n ddigonol.

## Pennod 1: **Cydraddoldeb nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**

Bydd creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lle mae gan bawb y cyfle i gymryd rhan, gwireddu eu potensial a gallu cyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy llewyrchus ac arloesol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi dyletswydd i ymgymryd â datblygu cynaliadwy gyda'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys saith nod llesiant i wneud Cymru yn wlad lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal a chyfrifol yn fyd-eang â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ni ellir gwahanu'r nodau llesiant hyn, sy'n esbonio beth yw ystyr llesiant Cymru. Y saith nod llesiant yw:




Er y bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb yn gorgyffwrdd â llawer o'r nodau llesiant, byddant yn benodol yn cefnogi cynnydd tuag at y canlynol:

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

**Cymru o gymunedau cydlynus**

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Yn ôl y Ddeddf, mae hefyd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth wrth gymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd allweddol o weithio. Mae'n rhaid i ni wneud y canlynol:

- edrych i'r **hirdymor** er mwyn i ni beidio â pheryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;

- mabwysiadu **dull gweithredu integredig** er mwyn i gyrff cyhoeddus ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau;
- **cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy cyffredin;
- deall yr hyn sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu **hatal** rhag digwydd ac ystyried a ddylem newid y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau ar hyn o bryd.

Bydd y pum ffordd hyn o weithio yn llywio ein gwaith i ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r camau gweithredu a fydd yn helpu i sicrhau ein bod yn eu cyflawni.

Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf wedi'u cynllunio i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Ein dull o wneud y cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant fu nodi'r meysydd hynny lle y gall defnyddio ein pwerau a'n sbardunau gyflawni gwelliant go iawn dros y tymor llywodraeth hwn, a lle gall gweithredu ar y cyd ar draws y llywodraeth, ac â'n partneriaid cyflenwi, gael yr effaith fwyaf.

Gyda ffocws ar yr hirdymor, a chan ystyried y dystiolaeth a'r adborth rydym wedi'u hadolygu hyd yn hyn (o dan egwyddor 'cynnwys'), rydym wedi datblygu cyfres o nodau drafft, tymor hwy y gall Llywodraeth Cymru wneud cynnydd tuag atynt drwy ein Hamcanion Cydraddoldeb cyfunol. Gall y rhain hefyd helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud cynnydd drwy fabwysiadu rhai o'r un nodau neu bob un ohonynt os bydd yn briodol iddynt wneud hynny. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu cydraddoldeb mewn ffordd integredig a strategol, lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol gwneud hynny.

Bwriad y nodau cydraddoldeb hirdymor hyn yw creu gweledigaeth uchelgeisiol am Gymru sy'n fwy cyfartal, y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru anelu ati drwy ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 ac, yn hollbwysig, y tu hwnt i hynny.

Drwy wneud hyn, rydym yn rhagweld y gall fod gan rai cyrff yn y sector cyhoeddus sawl Amcan Cydraddoldeb o dan un nod hirdymor, neu efallai na fydd ganddynt unrhyw amcanion o dan nod arall na ellir gwneud cynnydd arnynt oherwydd natur eu swyddogaethau a'u cylch gwaith.

Rhestrir ein nodau cydraddoldeb drafft ar gyfer yr hirdymor isod, ac ym mhennod 5 rydym wedi'u cysylltu â'n Hamcanion Cydraddoldeb drafft. Byddem yn croesawu ac yn gwerthfawrogi eich adborth am y dull gweithredu hwn.

**Parhad a Newid.**

Mae'r nodau cydraddoldeb hirdymor drafft yn cwmpasu meysydd tebyg i'r rhai yn Amcanion Cydraddoldeb presennol Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i'n hadborth cynnar gan randdeiliaid a hefyd drwy dystiolaeth y tynnir sylw ati yn y ddogfen *'A yw Cymru'n Decach? 2018'*, rydym yn cydnabod yr heriau a godir a'r ffaith bod llawer ohonynt yn rhai hirsefydlog sy'n pontio'r cenedlaethau.

Serch hynny, mae'r dull gweithredu a gynigir ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb strategol nesaf ar gyfer 2020-24 yn newid sylweddol o ran sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn.

Rydym yn disgwyl y bydd Amcanion Cydraddoldeb CAMPUS sydd wedi'u diffinio'n dda a'u hategu gan gamau gweithredu wedi'u targedu yn ein galluogi i wneud cynnydd go iawn tuag at ein nodau tymor hwy, gan gael gwared ar anghydraddoldeb sydd wedi hen ymsefydlu a gwneud Cymru yn decach yn gyffredinol.

**Nodau cydraddoldeb hirdymor ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus**

- Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi.
- Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i Gymru.
- Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn cael blaenoriaeth wrth gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.
- Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol.
- Dileu difrïo, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth.
- Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal.
- Gall pawb yng Nghymru gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol, bywyd cyhoeddus a bywyd pob dydd.
- Bydd cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.

## Pennod 2: Y dirwedd cydraddoldeb

Ers cyhoeddi ein Hamcanion Cydraddoldeb presennol yn 2016, cafwyd datblygiadau cenedlaethol a byd-eang arwyddocaol sy'n parhau i effeithio ar fywydau dinasyddion yng Nghymru.  Mae'r bennod hon yn crynhoi'r prif faterion ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb iddynt.

### **Atgyfnerthu a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yng nghyd-destun Brexit.**

Mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i greu cryn ansicrwydd, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r degawdau o fod yn aelod o'r UE wedi creu gwaddol o fuddiannau sy'n cwmpasu sawl agwedd ar fywyd pob dydd yng Nghymru, er enghraifft hawliau cyflogaeth ac amgylcheddol, a rheoliadau iechyd a diogelwch.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiogelu'r buddiannau hyn yng Nghymru a byddwn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ymgais i dorri corneli a chreu amodau gwaeth wrth i ni adael yr UE. Yn benodol, byddwn yn monitro'n agos effaith ymadael â Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE.

Mewn ymateb i alwadau gan sawl rhanddeiliad i Lywodraeth Cymru weithredu er mwyn gwarchod cydraddoldeb a hawliau dynol, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit, mae sawl llinyn gwaith yn cael ei ddatblygu:

- Rhoi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn Rhan Un o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar waith, er mwyn ei gwneud yn ofynnol i rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith eu penderfyniadau strategol ar y bobl a'r grwpiau tlotaf.

- Adolygu'r Dyletswyddau sy'n Benodol i Gymru (a nodir ar hyn o bryd o dan Reoliadau 2011) o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u diweddaru, eu bod yn gymesur ac yn effeithiol.

- Gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i adolygu'r trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, fel bod data ac adroddiadau ar gydraddoldeb gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn hawdd i'w canfod a'u deall.

- Comisiynu ymchwil i opsiynau ehangach i atgyfnerthu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru a fydd, ymysg pethau eraill, yn ystyried y posibilrwydd o ymgorffori confensiynau'r Cenhedloedd Unedig o fewn cyfraith Cymru o bosibl a ph'un a all fod angen deddfwriaeth newydd, fel Bil Hawliau Dynol ar gyfer Cymru. Disgwylir rhannu canfyddiadau'r ymchwil hon erbyn diwedd 2020.

Mae pob llinyn gwaith yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Llywio Gweinidogol sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i fonitro cynnydd a chynghori arno.

**Cyni a Diwygio Lles**

Mae polisïau diwygio lles Llywodraeth y DU sydd wedi bod ar waith ers 2010 wedi cael effaith anghymesur ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed. Rydym wedi gweld mwy o ddibyniaeth ar fanciau bwyd a chynnydd mewn digartrefedd, unigrwydd a theimlo'n ynysig. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi gwneud gwaith ymchwil ar effaith gronnol diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU. Yn 2018, nododd effaith anghymesur o negyddol ar incwm sawl grŵp gwarchodedig, yn cynnwys pobl anabl, rhai grwpiau ethnig, a menywod, ac effeithiau arbennig o negyddol ar grwpiau croestoriadol sy'n profi sawl anfantais (er enghraifft, rhieni unigol â phlant anabl). Nododd hefyd fod cyni yn effeithio ar anghydraddoldeb cynyddol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Nododd yr adroddiad pwerus gan Adroddwr Arbennig y CU dros Dlodi Eithriadol a Hawliau Dynol, yr Athro Philip Alston, yn arbennig yr effeithiau y mae newidiadau Llywodraeth y DU yn eu cael. Dywedodd yr Athro Alston “It thus seems patently unjust and contrary to British values that so many people are living in poverty”…..Benefits reductions since 2010 have saved money for the government, but undermined the capacity of beneficiaries to escape from the grip of poverty.”

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar waith yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Mae'n nodi'n glir y gydberthynas agos rhwng tlodi ac agweddau eraill ar anghydraddoldeb a'r angen i sicrhau bod unrhyw gamau i gefnogi

pobl ddifreintiedig yn ystyried materion economaidd-gymdeithasol yn ogystal â ffactorau eraill.

## Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol

Mae Cyni a Diwygio Lles wedi cael effaith andwyol ar bobl anabl.  Nodwyd hyn hefyd mewn adroddiadau diweddar gan y CU sydd wedi beirniadu polisïau Llywodraeth y DU yn hallt Mae hyn wedi dylanwadu'n fawr ar y gwaith a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddiweddaru Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu ar Anabledd a gyhoeddwyd gyntaf yn 2013. Caiff y fersiwn newydd, sef 'Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol', ei chyhoeddi ar ddechrau hydref 2019, yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd ar ddiwedd 2018.

Fel ei ragflaenydd, mae'r fframwaith newydd yn seiliedig ar y Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn cydnabod mai rhwystrau mewn cymdeithas sy'n anablu pobl anabl, nid eu namau[2]. Gellir dileu'r rhwystrau hyn, a thrwy hynny, alluogi pobl anabl i gyflawni eu potensial a byw'r bywydau maent yn eu dewis. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ein gwaith a chaiff y fframwaith ei ategu gan gynllun gweithredu a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn dangos y ffordd y byddwn yn dileu'r rhwystrau sy'n anablu pobl sydd â namau.

Mae ein hymrwymiad i'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ymestyn y tu hwnt i Gweithredu ar Anabledd – Hawl i Fyw'n Annibynnol. Drwy weithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar ddileu rhwystrau – a gweithio gyda phobl anabl i nodi atebion – gallwn greu polisïau gwell a gwasanaethau gwell i bawb. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflwyno'r newid diwylliannol hwn ond mae'n cydnabod y bydd angen mynd ati dros amser i sicrhau bod pob agwedd ar ein gwaith yn cydymffurfio'n llawn â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

## Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol

Dechreuodd yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol â cham adolygiad cyflym rhwng mis Mawrth 2018 a mis Gorffennaf 2018. Arweiniodd hyn at adroddiad Cam 1 o 31 o argymhellion, a greodd y sail ar gyfer cam nesaf y gwaith. Dau o'r argymhellion allweddol o adroddiad Cam 1 oedd bod yn rhaid i Gyfnod 2 ddatblygu gweledigaeth ac iaith a rennir ar gyfer cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru a bod yn rhaid iddo bennu sut beth fyddai Llywodraeth ffeministaidd yng Nghymru, gan cynnwys gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau, a rôl y llywodraeth i newid diwylliant drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, addysg a'i holl weithgareddau.

### Y weledigaeth a'r egwyddorion

**https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/190204-cabinet-adolygiad-o-gydraddoldeb-rhywiol-diweddariad-18-19-27.pdf**

[2] Mae namau yn nodweddion personol.  Gallant fod yn namau gydol oes a gallant ddeillio o salwch neu anaf.  Gallant effeithio ar ymddangosiad unigolyn a/neu'r ffordd y mae'n gweithredu neu'n cyfathrebu a/neu gallant achosi amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys poen a blinder.

**Y weledigaeth:**

*Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhyw yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng pob menyw, dyn a pherson anneuaidd. Dyma weledigaeth lle mae'r llywodraeth yn anelu at greu amodau i sicrhau cydraddoldeb i bawb o ran deilliannau.*

Yr egwyddorion y cytunwyd arnynt yw bod Llywodraeth Cymru ffeministaidd:

- Wedi ymrwymo i gydraddoldeb o ran deilliannau i fenywod, dynion a phobl anneuaidd ac mae'n gweithio i ysgogi newid diwylliannol a strwythurol
- Yn rhagweithiol o ran hyrwyddo a hybu cydraddoldeb a dileu y rhwystrau sy'n atal menywod rhag cymryd rhan weithredol yn yr economi, a bywyd cyhoeddus a chymdeithasol
- Yn rhoi safbwynt rhywedd wrth galon y broses o wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau a'r gyllideb
- Yn seiliedig ar feddylfryd rhyngblethol[3] tuag at ei gwaith; mae'n sicrhau cynrychiolaeth eang, cyfranogiad gan amrywiaeth o bobl ac mae'n gwrando ar farn amrywiaeth o bobl
- Yn ffocysu ar bobl ac yn gydweithredol, gan sicrhau bod pob cymuned yn ymwneud â'i gwaith mewn ffordd ystyrlon
- Yn agored, yn dryloyw, ac yn atebol; ac mae'n croesawu pobl i graffu ar ei gwaith o safbwynt rhywedd
- Yn gwneud defnydd o ddulliau datblygu a dadansoddi polisïau i wneud cydraddoldeb rhywiol yn rhan o'i holl waith, ac mae'n monitro cynnydd tuag at gydraddoldeb, gan ddefnyddio sail dystiolaeth
- Yn arwain drwy esiampl, ac yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu i gyflawni cydraddoldeb.

Mae Cam 2 yr Adolygiad, a gynhaliwyd gan Chwarae Teg, a gaiff ei gyhoeddi yn yr hydref, wedi gorffen drwy lunio'r prif adroddiad 'Deeds not Words' a 'Map' ategol ar gyfer cyflawni cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru yn seiliedig ar y weledigaeth a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt. Mae'r argymhellion yn eang ac maent yn ymwneud â rôl Llywodraeth Cymru fel cyflogwr a lluniwr polisïau er mwyn ein helpu i gyflawni ein huchelgais o fod yn llywodraeth ffeministaidd.

O ystyried natur eang a hirdymor yr argymhellion, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Bwrdd Gweithredu er mwyn sicrhau bod arweinyddiaeth strategol a bod cydraddoldeb rhywiol yn datblygu gan ystyried anghenion croestoriadol menywod. Bydd y Bwrdd Gweithredu yn cynnwys cynrychiolwyr perthnasol o bob cwr o Gymru a bydd yn sicrhau bod safbwynt ehangach yn cynnwys ystyried gwaith a gaiff ei gomisiynu mewn perthynas ag atgyfnerthu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

[3] *dealltwriaeth o'r ffordd y gall nodweddion, fel rhywedd, hil neu ddosbarth, ddylanwadu ar ei gilydd, a chreu profiadau ac anfanteision unigryw sydd yn aml yn rhai amryfal.*

## Cydlyniant Cymunedol a Throseddau Casineb

Ers Refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016, cafwyd pryder cynyddol ynghylch graddau rhaniadau cymunedol. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chynnydd cyson mewn troseddau a digwyddiadau casineb. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Cronfa Bontio Ewrop i ddatblygu cyfres o brosiectau sydd â'r nod o wella cydlyniant cymunedol, atal troseddau casineb a gwella'r cymorth a gynigir i ddioddefwyr troseddau casineb.

Mae hyn yn cynnwys y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol a ehangwyd, sy'n ymestyn y rhwydwaith o Gydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol o 8 i tua 24 o swyddogion sy'n gweithio mewn llywodraeth leol ar faterion cydlyniant ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio rhoi sicrwydd i Ddinasyddion yr UE bod eu presenoldeb yng Nghymru yn cael ei werthfawrogi a hefyd eu cefnogi i aros a ffynnu drwy Brosiect Hawliau Dinasyddion yr UE a'r Gwasanaeth Cyngor i Fewnfudwyr. Mae'r Prosiect Hawliau Dinasyddion yn cefnogi'r rheini sydd o'r UE i gael cyngor ar Statws Preswylydd Sefydlog a materion lles cymdeithasol cyffredinol, yn ogystal â chyngor arbenigol ar gamfanteisio yn y gweithle, drwy Ganolfannau Cyngor ar Bopeth Cymru. Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Fewnfudwyr yn cynnig cyngor cyfreithiol i Ddinasyddion yr UE y gall fod ganddynt amgylchiadau mwy cymhleth er mwyn sicrhau y gallant gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud cais llwyddiannus am Statws Preswylydd Sefydlog.

Ehangwyd y cymorth i'r Ganolfan Adrodd a Chymorth Genedlaethol ar gyfer Troseddau Casineb, a gaiff ei rhedeg gan Cymorth i Ddioddefwyr Cymru, er mwyn sicrhau y gall ymateb i'r anghenion cymorth sy'n ofynnol yn sgil y cynnydd a ragwelir yn lefel y troseddau casineb wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu cynlluniau grant a fydd yn cefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau ffydd lleiafrifol er mwyn atal a lliniaru troseddau casineb.

## Cynllun Cenedl Noddfa ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Ers 2016, mae Cymru wedi chwarae rhan lawn yn Rhaglen Adsefydlu Syriaid a chynlluniau eraill i adsefydlu ffoaduriaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rôl weithredol wrth geisio gwella cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cyrraedd Cymru. Cynhaliodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ymchwiliad yn 2017 a chyhoeddodd 'Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun', a oedd yn cynnwys 18 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Cafodd cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru ei lunio ar y cyd â phobl sy'n ceisio noddfa a sefydliadau'r trydydd sector sy'n eu cynrychioli, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol o'r sector cyhoeddus. Mae'r Cynllun yn nodi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i wella'r cymorth a roddir i aelodau o'r gymuned sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn.

## Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth gyntaf y DU i wella cydraddoldeb i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr – Teithio at Ddyfodol Gwell. Yn 2018, disodlwyd y strategaeth wreiddiol hon gan gynllun wedi'i ddiweddaru – Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr – a oedd hefyd yn cynnwys cymorth i'r gymuned Roma.

Mae'r ddau gynllun wedi cynnig cyfeiriad strategol er mwyn gwella mynediad i lety sy'n briodol yn ddiwylliannol i Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru. Mae Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr hefyd yn canolbwyntio ar wella iechyd, addysg a chyflogaeth a chanlyniadau eraill. Roedd y Cynllun hefyd yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod dinasyddion Roma yn deall eu hawliau wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

**Y Gymraeg**

Er nad yw iaith yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a bod y gwaith o warchod y Gymraeg yn mynd rhagddo o dan ddeddfwriaeth ar wahân (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau cysylltiedig), mae wedi cael ei gydnabod ers tro bod agendâu polisïau cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ategu ac yn llywio ei gilydd ac y cânt eu cefnogi ymhellach drwy'r Nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Ein bwriad yw cynnal ac atgyfnerthu’r egwyddor honno drwy ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol newydd a sicrhau eu bod yn mynd ati i hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg.

# Pennod 3: Adborth o waith ymgysylltu cychwynnol

## Digwyddiadau ymgysylltu

Gwnaethom gynnal trafodaethau cychwynnol, anffurfiol â rhanddeiliaid cydraddoldeb ledled Cymru er mwyn llunio ein barn gychwynnol ar yr Amcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd. Yn eu tro, llywiodd y trafodaethau hyn ddigwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, y Drenewydd a Bae Colwyn ym mis Mawrth 2019.

Roedd y digwyddiadau yn agored i bawb, a daeth oddeutu 60 o randdeiliaid i gyd, yn bennaf o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Gwnaethom gyflwyno trosolwg o'r dirwedd wleidyddol bresennol i'r sawl a oedd yn bresennol a chynnal trafodaethau bord gron ar gyfres o gwestiynau, gan gwmpasu'r dull o ymdrin â'r Amcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd a'r trefniadau i ddilyn rhaglen gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant bresennol Llywodraeth Cymru (2017-20).

**Gofynnom a oedd unrhyw feysydd anghydraddoldeb nad oedd yr Amcanion Cydraddoldeb presennol yn mynd i'r afael â nhw.** Yn gyffredinol, cadarnhaodd yr ymatebion fod y materion a gwmpesir gan yr Amcanion Cydraddoldeb presennol yn dal i fodoli, ond bod angen diweddaru'r amcanion er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn cymdeithas ers iddynt gael eu datblygu yn 2016.

Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol:

- Gofynnodd rhanddeiliaid pam nad oedd hawliau dynol yn cael eu cynnwys yn yr Amcanion Cydraddoldeb presennol ac awgrymwyd y dylid mynd i'r afael â hyn pan gânt eu mireinio.
- Roedd angen rhoi mwy o sylw i ddarparu gwasanaethau hygyrch, yn cynnwys iechyd, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol, addysg a thrafnidiaeth. Y teimlad oedd bod trafnidiaeth, yn benodol, yn elfen bwysig a hepgorwyd o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol.

Rhoddodd rhanddeiliaid adborth hefyd ar yr hyn y dylid mynd i'r afael ag ef fel blaenoriaeth yn seiliedig ar y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, materion a thystiolaeth sydd ar gael.

Roedd y pwyntiau trafod yn cynnwys y canlynol:

- Ystyriwyd bod lefelau cynyddol o dlodi o ganlyniad i fesurau diwygio lles a cyni yn cael effaith arbennig o anghymesur ar y rhai sy'n gallu ei oddef leiaf, yn cynnwys effaith andwyol ar eu hawliau dynol. Roedd consensws cyffredinol y dylid rhoi blaenoriaeth i ymrwymiad i fynd i'r afael ag achosion tlodi a lliniaru effeithiau tlodi yn yr Amcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd.
- Crybwyllwyd effeithiau Brexit fel blaenoriaeth, yn enwedig yr ofn y gellid tanseilio deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol o ganlyniad i hynny. Cytunodd sawl un a oedd yn bresennol fod angen mynd ati i warchod hawliau pobl yng Nghymru. Roedd cynnydd dramatig mewn troseddau casineb ers y refferendwm yn adlewyrchu'r angen i gryfhau'r pwyslais ar gydlyniant cymunedol a mwy o waith ataliol ar aflonyddwch a difrïo.
- Roedd croeso cyffredinol i waith presennol Llywodraeth Cymru ar atgyfnerthu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, ar yr amod bod dulliau gweithredu effeithiol yn cael eu canfod, p'un ai drwy ddefnydd gwell o

ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol newydd. Ystyriwyd bod cychwyn arfaethedig Rhan 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb – y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol – yng Nghymru yn rhywbeth cadarnhaol iawn i sbarduno newid.

- Awgrymodd adborth y gallai'r Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol roi cymorth mwy cyson ar draws yr holl Amcanion Cydraddoldeb yn y dyfodol. Anogwyd mwy o gysondeb â strwythurau cymorth eraill ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Myfyriodd rhanddeiliaid ar ddiffyg cynrychiolaeth grwpiau amrywiol o bobl sy'n cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddiaeth. Dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gyffredinol, a dylid ehangu ei nod o fod yn gyflogwr sy'n dangos esiampl i fod yn sefydliad cydraddoldeb sy'n dangos esiampl yn fwy cyffredinol.

**Gwnaethom holi rhanddeiliaid am eu barn ar yr hyn y dylid ei ystyried wrth ddatblygu'r rhaglen gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant newydd.**

Roedd yr adborth yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae'r dyraniad cyllideb presennol yn annigonol i fynd i'r afael â'r heriau a'r bwlch canfyddedig sy'n cynyddu'n barhaus o ran anghydraddoldebau ledled Cymru, yn enwedig os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r dystiolaeth, y canfyddiadau a'r argymhellion yn *'A yw Cymru'n Decach? 2018'* fel y sail ar gyfer yr Amcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd a chamau gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Awgrymodd rhanddeiliaid y gellid gwneud defnydd gwell o gyllidebau/cyfraniadau adrannol ehangach Llywodraeth Cymru i gyflawni prosiectau cydraddoldeb, yn enwedig os oedd cyllid wedi'i gysylltu â'r gwaith o gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb.
- Gellid symleiddio prosesau gwneud cais, ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd, yn cynnwys gwneud prosesau yn gymesur â'r swm o gyllid sydd ar gael. Dywedodd rhanddeiliaid fod amser i ddatblygu cynigion yn allweddol i sicrhau llwyddiant, yn enwedig lle dymunwyd gwneud ceisiadau ar y cyd.
- Nododd rhanddeiliaid yn y gogledd ymdeimlad o wahaniaeth mewn lefelau ariannu rhwng rhanbarthau. Galwodd rhanddeiliaid am weld mwy o sefydliadau a ariennir yn y gogledd a bod cyllid yn cael ei rannu'n well yn rhanbarthol.
- Mae'r cyllid o'r Rhaglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn para dros dair blynedd ar hyn o bryd. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn teimlo'n gryf nad oedd hyn yn ddigon o amser i ddatblygu gwaith, sefydlu'r cydberthnasau a'r ymddiriedaeth angenrheidiol – â phartneriaid cydweithredol a'r cymunedau sy'n cael y cymorth – a chyflwyno gweithgarwch yn effeithiol cyn i'r cyllid ddod i ben. Awgrymwyd cyfnod hwy o bum mlynedd o leiaf, ynghyd â pharhau â chyllid ar gyfer prosiectau presennol a oedd yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus ac y mae'n debygol y bydd angen eu gwasanaethau mewn blynyddoedd i ddod.
- Roedd sawl un o'r farn bod gweithio ar y cyd a gwaith cydweithredol ar brosiectau ac ar draws prosiectau yn hanfodol. Yn ystod y cyfnod ariannu nesaf, ystyriwyd bod

gwaith y Timau Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn ddylanwad allweddol ar gyfer cyflawni hyn, gyda phrosesau hwyluso a chydweithredu gan Lywodraeth Cymru.

## Pennod 4: Beth mae'r dystiolaeth am gydraddoldeb yn ei ddweud wrthym?

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

O dan y dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effaith ein polisïau a'n penderfyniadau drwy ddadansoddiad trylwyr o dystiolaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb a gwaith ymgysylltu â chymunedau, unigolion ac arbenigwyr. Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall sut y gallai ein polisïau effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig ac a fydd angen camau gweithredu priodol er mwyn dileu neu leihau unrhyw effeithiau negyddol lle bo'n bosibl.

Bydd ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr Amcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd yn cynnwys yr adborth o'n gwaith ymgysylltu cynnar a'r ymgynghoriad arfaethedig hwn, yn ogystal â'r dystiolaeth werthfawr sy'n ymwneud â chydraddoldeb sydd ar gael o waith ymchwil, ymchwiliadau a datganiadau ystadegol diweddar.

Bydd rhai o brif ffynonellau'r dystiolaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb y byddwn yn cyfeirio atynt fel rhan o'n dadansoddiad ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys:

- *A yw Cymru'n Decach?*[4] (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018)
- *Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol Cam Un*[5], ac adroddiad a map Cam Dau pan gânt eu cyhoeddi ar ddechrau'r hydref (Chwarae Teg, 2018)
- *Adolygiad o'r Dystiolaeth yn ymwneud ag Anghydraddoldeb yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, heb ei gyhoeddi ar adeg yr ymgynghoriad)
- *Llesiant Cymru 2017-18*[6] (Llywodraeth Cymru, 2018)

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn rhoi gwybodaeth i ni am amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, y mae angen i ni eu hystyried wrth ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb ar eu newydd wedd. Rydym wedi nodi rhai ohonynt isod:

### Rhyw

Mae menywod yn wynebu anghydraddoldebau mewn sawl ffurf, sydd ond yn dwysáu os byddant hefyd yn rhan o grŵp gwarchodedig arall. Yn aml, mae menywod o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LHDT), a menywod oedrannus neu anabl yn wynebu sawl anfantais sy'n golygu ei bod yn anoddach iddynt gyflawni eu potensial llawn. Mae Cam Dau o'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol wedi rhoi cyfres o argymhellion i ni ar gyfer cyflawni cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru a bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb yn sbardunau allweddol wrth gyflawni'r nod hwn.

---

[4] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018). A yw Cymru'n Decach? URL *https://www.equalityhumanrights.com/cy/publication-download/yw-cymru'n-decach-2018*
[5] Chwarae Teg (2018). Adroddiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol Cam Un. URL https://www.cteg.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/FINAL-Rapid-Review-of-Gender-Equality-Phase-One-Cymraeg.pdf
[6] Llywodraeth Cymru (2018). Adroddiad Llesiant Cymru 2017-18. URL https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/llesiant-cymru-2018_0.pdf

**Anabledd**

Mae diwygiadau lles a chyni wedi effeithio'n anghymesur ar bobl anabl. Tanlinellwyd hyn yn archwiliad y CU o broses y DU o roi Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) ar waith yn 2016/17 ac mae'r materion hyn wedi'u hatgyfnerthu gan y broses o ddatblygu ein fframwaith newydd: *Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol.*

**Hil**

Mae'r cynnydd dramatig diweddar mewn troseddau casineb wedi effeithio'n anghymesur ar bobl BAME, gan fod 74% o droseddau a digwyddiadau casineb wedi'u hysgogi gan ragfarn hiliol neu grefyddol. Mae cyfarfodydd diweddar o Fforwm Hil Cymru a Rhaglen Ymgysylltu Cymru Gyfan ar gyfer Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi tynnu sylw at hiliaeth yn ein cymunedau, yn cynnwys ysgolion a gweithleoedd, a'r angen am gamau gweithredu ar y cyd er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

**Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches**

Yn 2017, cyhoeddodd pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches[7] yn ystod argyfwng ffoaduriaid mwyaf y byd ers yr Ail Ryfel Byd. Yn aml, mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cyrraedd Cymru ar ôl cael profiadau dirdynnol yn eu mamwlad ac ar eu taith i'r DU. Rydym am sicrhau y caiff yr unigolion hyn gymorth i ailadeiladu eu bywydau a gwneud cyfraniad llawn at gymdeithas yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cenedl Noddfa[8], sy'n nodi amrywiaeth o gamau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion y pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a materion ychwanegol a nodwyd drwy ymgynghoriad i wella bywydau pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru.

**Cyfeiriadedd rhywiol / ailbennu rhywedd (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol – LHDT)**

Mae *Adroddiad Gwaith*[9] Stonewall Cymru 2018 wedi datgelu achosion o wahaniaethu sy'n peri pryder yng ngweithleoedd Cymru, gyda thraean o'r ymatebwyr LHDT a gyflogir yng Nghymru (34%) yn nodi eu bod wedi cuddio'r ffaith eu bod nhw'n LHDT yn y gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan eu bod yn ofni gwahaniaethu. Yn *Adroddiad Ysgol Cymru*[10] a gyhoeddwyd yn 2017, dangoswyd, er bod rhai pobl ifanc LHDT yng Nghymru yn cael eu derbyn, fod bwlio, gwahaniaethu ac eithrio yn rhan o fywydau bob dydd llawer ohonynt.

---

[7] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2017) Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun. https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11012/cr-ld11012-w.pdf

[8] Llywodraeth Cymru Cynllun Cenedl Noddfa. URL https://llyw.cymru/cynllun-ffoaduriaid-cheiswyr-lloches-cenedl-noddfa

[9] Adroddiad Gwaith Stonewall Cymru (2018). URL https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/our-work/stonewall-research/lhdt-yng-nghymru-%E2%80%93-gwaith

[10] Adroddiad Ysgol Stonewall Cymru (2017). URL https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/schoolreportcymru

**Oedran**

**(Pobl Hŷn)**

Rydym yn gymdeithas sy'n heneiddio, ac amcangyfrifir bod ychydig dros 800,000 o bobl dros 60 oed yn byw yng Nghymru yn 2018, sy'n cyfrif am ychydig dros 25% o gyfanswm y boblogaeth. Disgwylir i'r ffigur hwn gynyddu a disgwylir i nifer y bobl dros 85 oed gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd i ddod. Mae lefelau tlodi ymysg pobl hŷn yn cynyddu ac mae'r bwlch o ran disgwyliad oes iach adeg geni rhwng yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru yn amrywio cymaint â 18 mlynedd ar gyfer dynion a menywod (rhwng 2015 a 2017)[11]. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gweithio i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn a wynebir gan unigolion a chymunedau ledled Cymru.

**(Plant a Phobl Ifanc)**

Yn 2019, cyhoeddodd y Comisiynydd Plant *Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn plant yng Nghymru rhag effaith tlodi*[12]. Nododd nad yw plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn cael eu hawliau dynol mwyaf sylfaenol, sef diwallu eu hanghenion o ran bwyd, cysgod ac iechyd. Mae costau mynychu a chyfranogi yn yr ysgol yn arwain at gyfle anghyfartal i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn hefyd yn teimlo wedi'u hynysu'n gymdeithasol oherwydd bod diffyg cyfleoedd ar gael iddyn nhw yn eu cymuned.

**Beichiogrwydd a mamolaeth**

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi gwneud gwaith ymchwil ar feichiogrwydd a mamolaeth yn y gweithle[13]. Nododd fod y mwyafrif o gyflogwyr o'r farn ei bod o fudd iddynt gefnogi menywod beichiog a'r rheini sydd ar gyfnod mamolaeth ac roeddent yn cytuno bod hawliau statudol mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth yn rhesymol ac yn hawdd eu rhoi ar waith. I'r gwrthwyneb, nododd tua un o bob naw mam (11%) eu bod naill ai wedi cael eu diswyddo neu wedi cael eu diswyddo'n orfodol o gymharu ag eraill yn eu gweithle na chawsant eu trin yn y ffordd hon. Nodwyd bod rhai wedi cael eu trin mor wael fel eu bod wedi teimlo bod yn rhaid iddynt adael eu swydd. Dywedodd un o bob pum mam eu bod wedi wynebu aflonyddwch neu sylwadau negyddol yn ymwneud â beichiogrwydd neu weithio hyblyg gan eu cyflogwr a / neu gydweithwyr a dywedodd 10% o'r mamau fod eu cyflogwr wedi eu hannog i beidio â mynychu apwyntiadau cynenedigol.

---

[11] SYG (2019) Health state life expectancies by national deprivation deciles, England and Wales: 2015 to 2017 URL https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthinequalities/bulletins/healthstatelifeexpectanciesbyindexofmultipledeprivationimd/2015to2017?:uri=

[12] Comisiynydd Plant Cymru (2019) Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn plant yng Nghymru rhag effaith tlodi URL https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/Siarter-ar-Gyfer-Newid-Diogelu-Plant-Cymru-rhag-Effaith-Tlodi.pdf

[13] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) Pregnancy and maternity discrimination research findings. URL https://www.equalityhumanrights.com/en/managing-pregnancy-and-maternity-workplace/pregnancy-and-maternity-discrimination-research-findings

**Crefydd / cred**

Yn 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *Religion or Belief: Is the Law Working?*[14] Nododd gwaith ymchwil fod y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Hawliau Dynol yn rhoi digon o ddiogelwch i unigolion y mae ganddynt grefydd neu gred, unigolion nad oes ganddynt grefydd neu gred, sefydliadau crefydd neu gred a grwpiau eraill a ddiogelir gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Er hyn, nodwyd cyfleoedd ar gyfer gwella. Er enghraifft, mynd i'r afael â phryderon nad yw cyflogwyr, cyflogeion, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth yn aml yn glir ynghylch eu hawliau a'u rhwymedigaethau. Nid ydynt yn siŵr sut i wneud cais neu ymateb i gais sy'n ymwneud â chrefydd neu gred unigolyn, na sut i reoli gweithleoedd amrywiol neu grwpiau defnyddwyr gwasanaeth amrywiol.

[14] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2016) Religion or Belief: Is the Law Working? URL https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/religion-or-belief-report-december-2016.pdf

## Pennod 5: Amcanion Cydraddoldeb Drafft Llywodraeth Cymru

## Dull Gweithredu

Ein nod yw y bydd gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-2024 **dair prif elfen:**

A. **Nodau Hirdymor.** Bydd y rhain yn ymwneud â chydraddoldeb yng Nghymru gyfan a gall sefydliadau eraill eu rhannu, yn cynnwys cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd y nodau hyn yn dal i fod yn berthnasol y tu hwnt i'r cyfnod a gwmpesir gan y cynllun. Cynigir y nodau hyn fel model y gall sefydliadau eraill fod am ei fabwysiadu, naill ai yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol, er mwyn cefnogi camau gweithredu ar y cyd i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

B. Ar gyfer pob un o'r nodau hirdymor, ceir **Amcan Cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024** unigol, mesuradwy, gan Lywodraeth Cymru. Mae gan yr amcanion hyn gysylltiad agosach na'r nodau hirdymor â rôl a phwerau Llywodraeth Cymru. Bydd y ffocws ar yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni o fewn oes y cynllun newydd.

C. Mae nifer o **Gamau Gweithredu** sy'n gysylltiedig â'r meysydd yn *A yw Cymru'n Decach? 2018* yn ategu pob un o Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb arfaethedig i'w gweld isod. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiad pob Amcan â'r nodau cydraddoldeb hirdymor.

Wrth ddatblygu ein nodau, amcanion a chamau gweithredu, byddwn yn sicrhau bod pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael eu cefnogi. Bydd ein camau gweithredu'n benodol i grwpiau gwarchodedig pan fydd y dystiolaeth yn dweud wrthym fod angen cymryd camau wedi'u targedu.

Rydym yn cydnabod bod gan lawer o bobl brofiad o nodweddion gwarchodedig sy'n gorgyffwrdd. Ymysg yr enghreifftiau mae plant anabl; pobl LDHT hŷn; menywod Mwslimaidd. Anaml y caiff person ei ddiffinio gan un nodwedd. Felly, rydym yn datblygu Amcanion Cydraddoldeb "cydgyfeiriadol", h.y. rhai sy'n ceisio dileu gwahaniaethu ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn meithrin cydberthnasau da yn y ffyrdd mwyaf cynhwysol. Yn yr un modd, mae'r nodau ac amcanion eu hunain yn rhai trawsbynciol ac yn rhyngddibynnol.

Byddwn yn ymchwilio i’r cysylltiad rhwng datblygiadau polisi cyfredol Llywodraeth Cymru a’r rheini sy’n datblygu, a’r camau a gymerir i gyflawni’r polisïau hynny, a byddwn yn sicrhau bod polisïau allweddol, er enghraifft y Cynllun Gweithredu arfaethedig ar yr Economi, yn gysylltiedig. Byddwn, felly, yn gwneud y mwyaf o’r potensial ar gyfer gweithredu ar draws portffolios ac yn sicrhau bod Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn manteisio ar y synergeddau naturiol a ddaw i’r amlwg.

Fel y crybwyllir yn gynharach yn y ddogfen hon, oherwydd natur amrywiol y swyddogaethau a chylch gwaith cyrff yn y sector cyhoeddus, rydym yn rhagweld y gall fod gan rai ohonynt sawl Amcan Cydraddoldeb o dan un nod hirdymor, ac efallai na fydd ganddynt unrhyw Amcanion o dan nod arall na ellir gwneud cynnydd arnynt oherwydd natur y swyddogaethau a'r cylch gwaith.

| Amcanion Cydraddoldeb Drafft Llywodraeth Cymru |
| --- |
| **Nod Hirdymor 1 –** Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi.<br><br>**Amcan Cydraddoldeb 1 Llywodraeth Cymru:**<br><br>Erbyn 2024, byddwn wedi gwella canlyniadau i'r sawl sy'n wynebu'r risg fwyaf o fyw mewn cartrefi incwm isel, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, drwy liniaru effaith tlodi, gwella cyfleoedd a lleihau'r anghydraddoldebau a wynebir gan y rheini sy'n byw mewn tlodi. *[Mesurir gan ddefnyddio amrywiaeth o ddata, yn cynnwys data am gartrefi ag incwm islaw'r incwm cyfartalog]* |
| **Nod Hirdymor 2 –** Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru<br><br>**Amcan Cydraddoldeb 2 Llywodraeth Cymru:** Erbyn 2024, byddwn wedi cwblhau ymchwiliadau i'r ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru sicrhau fframwaith cydraddoldeb a hawliau dynol integredig sy'n hyrwyddo canlyniadau a chyfleoedd cyfartal ac sy'n gallu helpu i ddileu achosion o wahaniaethu i bob grŵp o bobl sydd ag un nodwedd warchodedig neu fwy *[Mesurir gan ddefnyddio gwaith y Grŵp Llywio ar Hyrwyddo ac Atgyfnerthu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.]* |
| **Nod Hirdymor 3 –** Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.<br><br>**Amcan Cydraddoldeb 3 Llywodraeth Cymru:** Er mwyn gweithio tuag at feithrin cyfleoedd a chanlyniadau cyfartal i bawb yng Nghymru, byddwn yn parhau i sicrhau bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru ym mhopeth a wnawn ac yn gweithio i annog sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus i ddilyn ein hesiampl. Drwy weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar ddileu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cyflawni eu potensial (yn cynnwys, er enghraifft, gydraddoldeb cyflog, neu gan ddilyn yr esiampl o Fodel Cymdeithasol o Anabledd) byddwn yn creu polisïau gwell a gwasanaethau gwell i bawb *[Mesurir gan ddefnyddio trefniadau adrodd gwell Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a newidiadau i reoliadau sy'n benodol i Gymru.]* |
| **Nod Hirdymor 4** – Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhyw yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng pob menyw, dyn a pherson anneuaidd.<br><br>**Amcan Cydraddoldeb 4 Llywodraeth Cymru:** Byddwn yn dechrau cyflawni gweledigaeth ac egwyddorion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol. *[Mesurir gan ddefnyddio'r broses o ddatblygu'r Adroddiad a'r Map ar gyfer ymgorffori egwyddorion ffeministaidd yn Llywodraeth Cymru.]* |

**Nod Hirdymor 5** – Dileu difrïo, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth.

**Amcan Cydraddoldeb 5 Llywodraeth Cymru:** Erbyn 2024, byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr sy'n profi difrïo, aflonyddwch, troseddau casineb neu fwlio am fod ganddynt un nodwedd warchodedig neu fwy yn gallu cael cyngor a chymorth i fyw heb ofn na chamdriniaeth. *[Mesurir gan ddefnyddio gwaith monitro adroddiadau troseddau casineb, gwasanaethau a ddarperir gan Cymorth i Ddioddefwyr, cwnselwyr a leolir mewn ysgolion, monitro adroddiadau bwlio, ymatebion i'r arolwg cenedlaethol ynghylch ofn troseddau / erledigaeth]*

**Nod Hirdymor 6 –** Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal.

Amcan Cydraddoldeb 6 Llywodraeth Cymru: Erbyn 2024, byddwn yn datblygu fframwaith monitro er mwyn mesur y cynnydd a wnaed tuag at gydlyniant cymunedol ac yn meithrin cydberthnasau da rhwng pob grŵp, gan adeiladu ar ein polisïau a'n hymyriadau presennol. [*Mesurir drwy ddefnyddio metrigau cynyddol yn Nangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref*].

**Nod Hirdymor 7** – Gall pawb yng Nghymru gyfranogi mewn bywyd gwleidyddol, cyhoeddus a bywyd bob dydd.

**Amcan Cydraddoldeb 7 Llywodraeth Cymru:** Erbyn 2024, byddwn yn cynyddu amrywiaeth y rheini sy'n gwneud penderfyniadau mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus, gan archwilio meysydd lle mae angen cymryd rhagor o gamau gweithredu er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell o amrywiaeth ymysg y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ac ymchwilio i ddulliau o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. *[Mesurir drwy ddefnyddio % yr unigolion o grwpiau gwarchodedig sy'n cael rolau gwneud penderfyniadau mewn rolau cyhoeddus a gwleidyddol.]*

**Nod Hirdymor 8** – Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.

**Amcan Cydraddoldeb 8 Llywodraeth Cymru:** Erbyn 2024, bydd Llywodraeth Cymru yn gyflogwr sy'n dangos esiampl, gan gynyddu amrywiaeth, dileu rhwystrau a chefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, gan greu cyfle cyfartal i bawb. *[Mesurir drwy ddefnyddio data amrywiaeth o ran cyflogaeth a recriwtio a'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.]*

## Cysylltu Amcanion â Chamau Gweithredu

Ar gyfer pob un o'r amcanion uchod, caiff nifer bach (tua 6-8) o gamau gweithredu allweddol eu nodi er mwyn dangos y ffordd y caiff yr amcan ei gyflawni yn y cyfnod 2020-2024. Caiff y camau gweithredu hyn eu trefnu mewn perthynas â 6 maes *A yw Cymru'n Decach? 2018,* sef:

1. Addysg
2. Gwaith
3. Safonau byw
4. Iechyd
5. Cyfiawnder a Diogelwch Personol
6. Cyfranogiad

Bydd y camau gweithredu o dan bob amcan yn ymwneud â mwy nag un o'r meysydd hyn. Ar gyfer pob cam gweithredu, rhoddir esboniad er mwyn dangos y ffordd y bydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcan dan sylw a'r ffordd y caiff ei fesur.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys y camau gweithredu a gaiff eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd. Caiff y rhain eu datblygu yn ystod yr ymgynghoriad ac ar ôl hynny drwy ymgysylltu ar draws Llywodraeth Cymru a gyda rhanddeiliaid. Rhoddir yr enghraifft isod i ddangos sut rydym yn bwriadu gweithredu.

Hefyd, ni fydd y Cynllun terfynol yn cynnwys <u>holl</u> weithgarwch Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phob amcan; bydd y ffocws ar weithgarwch enghreifftiol allweddol sy'n gysylltiedig â meysydd *A yw Cymru'n Decach?* Y disgwyliad yw y bydd amrywiaeth eang o weithgarwch arall hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn ystod oes y cynllun, a nodir rhywfaint ohono yn Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol Llywodraeth Cymru

**ENGHRAIFFT: AMCAN 1**

Nod Hirdymor 1 – Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi

Amcan Cydraddoldeb 1 Llywodraeth Cymru

Erbyn 2024, byddwn yn lleihau'r bwlch rhwng y cyfleoedd a'r canlyniadau i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, gan ystyried yr anfanteision lluosog y gellir eu profi oherwydd amgylchiadau economaidd-gymdeithasol gwahanol, o gymharu â'r rheini nad oes ganddynt nodweddion.

**Maes Blaenoriaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Gwaith**

<u>Cam gweithredu</u>

Byddwn yn cefnogi'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur, sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n gwaethygu o ganlyniad i'r ffaith bod ganddynt nodwedd warchodedig, yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig drwy ein rhaglen 'Cymunedau am Waith'. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i gefnogi twf a datblygiad busnesau lleol er mwyn creu cyfleoedd drwy raglen Busnes Cymru.

| | |
|---|---|
| <u>Cyfraniad at yr Amcan Cydraddoldeb/nod cydraddoldeb hirdymor</u><br><br>Bydd cynnig mentora a chymorth dwys, cyfleoedd i hyfforddi a chael profiad gwaith yn galluogi pobl i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy fel llwybr i ddianc rhag tlodi. | <u>Mesurau</u><br><br>Dangosydd llesiant cenedlaethol 16:<br><br>Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU. |

## Pennod 6: Trefniadau yn y Dyfodol ar gyfer y Rhaglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Bydd y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae'r rhaglen yn cefnogi Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020 a'r nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n cynnwys Grant Cydraddoldeb ar gyfer sefydliadau cynrychioliadol a Phrosiectau Cynhwysiant ar gyfer tri maes gwaith penodol.

Dyfarnwyd cyllid i asiantaethau arweiniol gefnogi'r gwaith hwn fel a ganlyn:

- Cydraddoldeb Rhywiol – Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
- Hil – EYST
- Ailbennu Rhywedd a Chyfeiriadedd Rhywiol (LHDT) – Stonewall Cymru
- Anabledd – Anabledd Cymru
- Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth i Sipsiwn, Roma a Theithwyr – TGP Cymru
- Gwasanaethau Cymorth i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches – Consortiwm dan arweiniad Cyngor Ffoaduriaid Cymru, mewn partneriaeth ag EYST, TGP Cymru, BAWSO, Dinas Noddfa, Alltudion ar Waith ac Asylum Justice.
- Canolfan Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth Cymru Gyfan – Cymorth i Ddioddefwyr Cymru

Rydym wedi cyhoeddi dogfen grynodeb o'r rhaglen sy'n rhoi manylion y gwasanaethau a gaiff eu darparu drwy'r rhaglen a manylion cyswllt perthnasol –

http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/170908-eandi-programme-info-cy.pdf

http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/170908-eandi-programme-info-en.pdf

Yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu anffurfiol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019, gwnaethom geisio barn ar y rhaglen hon. Ar y cam hwn roeddem yn ystyried ymgynghori ar y trefniadau cyllid yn dilyn hyn ynghyd ag ymgynghori ar ein Hamcanion Cydraddoldeb nesaf. Am nifer o resymau, yn cynnwys yr ansicrwydd presennol ynghylch cyllidebau yn y dyfodol, rydym wedi penderfynu ymgynghori ar yr Amcanion yn unig ar y cam hwn. Rydym yn rhagweld y byddwn yn ymgynghori ar wahân ar drefniadau cyllido cydraddoldeb ar gyfer y dyfodol yn 2020. Mae'r prif resymau dros hyn fel a ganlyn:

- Ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit a'r effaith y gallai hyn ei chael ar agweddau ar gydraddoldeb yng Nghymru, y dylid eu hystyried, lle y bo'n rhesymol bosibl, wrth ddatblygu'r rhaglen gyllido nesaf;

- Oherwydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant sydd ar droed gan Lywodraeth y DU, nid yw cyllidebau Llywodraeth Cymru wedi'u pennu eto y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol, felly nid yw'n debygol y byddai unrhyw drefniadau ariannu newydd yn ymestyn y tu hwnt i fis Mawrth 2021, er ein bod yn cydnabod bod trefniadau ariannu tymor hwy yn ddymunol;

- Yr angen i ystyried adroddiadau terfynol yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, sydd newydd gael eu cyhoeddi, ac unrhyw gamau nesaf y mae'n debygol y byddant yn effeithio ar drefniadau ariannu yn y dyfodol;

- Adborth a gafwyd gan randdeiliaid sy'n ymwneud â'r angen am amser rhesymol i ddatblygu cynigion, yn enwedig lle mae cynigion consortiwm a gweithio mewn partneriaeth yn ddymunol. Er mwyn cydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth

Cymru ar Ariannu'r Trydydd Sector, dylid cadarnhau'r trefniadau ar gyfer 2020-21 erbyn 31 Rhagfyr 2019, nad yw'n caniatáu digon o amser i brosesau ymgynghori a gwneud cais gael eu cwblhau.

Am y rhesymau hyn, y bwriad bellach yw trafod â phob un o'r asiantaethau arweiniol presennol ar gyfer Rhaglen Gyllido bresennol Cydraddoldeb a Chynhwysiant pa drefniadau y dylid eu gwneud ar gyfer 2020-21, gyda'r nod o gadarnhau'r sefyllfa ym mhob achos erbyn mis Rhagfyr 2019. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu ymestyn y trefniadau ariannu presennol, yn amodol ar gytundeb ar amcanion a chanlyniadau priodol ar gyfer y flwyddyn ychwanegol. Mewn achosion eraill, mae'n bosibl y bydd angen rhoi trefniadau arian pontio amgen ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymestyn contract y Ganolfan Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth am flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021.

Y bwriad yw y bydd prosiectau'r Rhaglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant sydd wedi'u hymestyn yn parhau hyd at 31 Mawrth 2021. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion newydd sy'n ystyried yr amcanion cydraddoldeb newydd, ar ôl cytuno arnynt, ynghyd â'r materion eraill a nodir uchod.

Wrth ddatblygu'r rhaglen gyllido newydd a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2021, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid cydraddoldeb. Bwriedir hefyd y bydd y broses o wneud cais ar gyfer y rhaglen gyllido newydd yn rhoi digon o amser i sefydliadau ddatblygu cynigion yn llawn.

| | |
|---|---|
| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | Eich enw:<br>Sefydliad (lle y bo'n berthnasol):<br>E-bost/rhif ffôn:<br>Eich cyfeiriad: |

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'r Amcanion Cydraddoldeb drafft arfaethedig ym Mhennod 5?

**Cwestiwn 2:** Yn eich barn chi, a oes unrhyw feysydd o anghydraddoldeb nad yw'r Amcanion Cydraddoldeb drafft yn mynd i'r afael â nhw ac sy'n arbennig o arwyddocaol i chi?

**Cwestiwn 3:** A oes unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg / materion / tystiolaeth mewn perthynas ag anghydraddoldeb yng Nghymru y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn eich barn chi?

**Cwestiwn 4:** Beth yw eich barn ynghylch y dull o ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb sy'n cyfrannu at nodau dyheadol yn y tymor hwy?

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddatblygu nifer bach o gamau gweithredu allweddol o dan bob Amcan, sy'n gysylltiedig â'r 6 maes yn *A yw Cymru'n Decach? 2018,* fel enghreifftiau i ddangos sut y caiff yr amcanion eu cyflawni?

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno â'r bwriad i barhau i sicrhau bod cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cyd-fynd â'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol?

**Cwestiwn 7**: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gallem adeiladu momentwm a chynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol, neu lle rydych o'r farn y gallai fod effeithiau negyddol, beth y gallwn ei wneud i'w lliniaru?

**Cwestiwn 8:** Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 9**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Nodwch yma:

Mae'r ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: